**Rhif:** WG40391

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan

Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol

Dyddiad cyhoeddi: 8 Gorffennaf 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Medi 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

# Canllawiau fframwaith drafft ar ymwreiddio dull ysgol gyfan

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau fframwaith drafft Llywodraeth Cymru |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **30 Medi 2020** fan hwyraf. |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Manylion cyswllt** | Iechyd a Lles mewn Ysgolion<br>Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>**E-bost:** Mentalhealth.Schools@gov.wales |

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achredededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Crynodeb

## Pam rydym yn cynnig y canllawiau hyn?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyfryngau wedi hoelio'u sylw ar ‘argyfwng’ o ran iechyd meddwl plant, a hynny nid yn unig yng Nghymru neu'r DU, ond yn rhyngwladol. Yn 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad Cadernid Meddwl[1], a nododd fod angen gwneud newid sylweddol i'r cymorth emosiynol ac iechyd meddwl a roddir i blant a phobl ifanc.  Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, ac roedd sawl un ohonynt yn ymwneud â rhoi cymorth mewn lleoliadau addysg a datblygu dull ysgol gyfan (fel rhan o system gyfan ehangach) o ddiwallu anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc. Yn benodol, tynnodd yr adroddiad sylw at anghenion y ‘canol coll’, sef plant a phobl ifanc sydd ag iechyd meddwl gwael, ond nad oes ganddynt salwch meddwl y gellid ei ddiagnosio. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn, nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i gael triniaeth gan wasanaethau arbenigol, yn aml yn cael fawr ddim cymorth, os o gwbl.

## Beth yw diben yr ymgynghoriad?

Bwriedir i'r fframwaith helpu ysgolion i adolygu eu sefyllfa eu hunain o ran lles, a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau. Mae'n cydnabod na all yr ysgol ar ei phen ei hun ddiwallu anghenion poblogaeth gymhleth o blant a phobl ifanc, ac yn nodi rôl cyrff rhanbarthol, y GIG ac eraill megis y trydydd sector, wrth gefnogi'r ysgol. Ei fwriad yw cefnogi ac ategu'r cwricwlwm newydd i Gymru a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn benodol.

Mae adroddiad ‘Iach a Hapus’ Estyn[2] yn dangos bod tua un o bob tair ysgol uwchradd a dwy o bob tair ysgol gynradd eisoes yn mabwysiadu dulliau ysgol gyfan i ryw raddau. Ar gyfer yr ysgolion hyn, bwriedir i'r canllawiau gefnogi'r broses o adolygu a gwella gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud. Ar gyfer ysgolion nad ydynt wedi dechrau ar y daith hon, gall y canllawiau hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer cefnogi lles plant a phobl ifanc.

## Y sefyllfa bresennol

Yn 2018, daeth y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at ei gilydd i ymgynnull grŵp o arbenigwyr o feysydd iechyd, addysg a'r trydydd sector, i'w cynghori ar y gwaith sydd ei angen er mwyn ymwreiddio dulliau ysgol gyfan ledled Cymru. Un o ymrwymiadau allweddol y grŵp oedd datblygu fframwaith ar gyfer dull ysgol gyfan er mwyn rhoi canllawiau i ysgolion. Mae hyn yn adeiladu ar amrywiaeth o arferion da a mentrau sydd eisoes ar waith ledled Cymru, megis y gwasanaeth cwnsela ysgolion llwyddiannus a mewngymorth CAMHS i ysgolion.

Yn y misoedd diwethaf, mae pandemig y coronafeirws wedi arwain at nifer o heriau newydd o ran iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc. Yn y sefyllfa bresennol, mae dull ysgol gyfan sy’n canolbwyntio ar iechyd a llesiant dysgwyr staff yn bwysicach nag erioed.

[1] https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf
[2] https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/iach-a-hapus

Mae'r gweithgarwch hwn a dull cydweithredol o gasglu ac ymgorffori barn rhanddeiliaid wedi llywio'r broses o ddatblygu'r canllawiau hyn sydd bellach yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## Yr ymgynghoriad ar y fframwaith

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu barn ar ba mor eglur a defnyddiol y mae canllawiau'r fframwaith er mwyn helpu i ymwreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol.

Bwriedir i'r fframwaith ddarparu adnodd gwerthfawr i ysgolion ac eraill wrth ddatblygu a gweithredu eu dulliau ysgol gyfan eu hunain, gan hyrwyddo darpariaeth gyson a thegwch i bobl a phobl ifanc. Caiff ei gefnogi gan amrywiaeth o adnoddau eraill y gall ysgolion eu defnyddio, megis pecyn cymorth o ymyriadau cyffredinol a phenodol, a deunyddiau hyfforddiant i athrawon ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys iechyd meddwl a lles emosiynol, datblygiad plant a chyflyrau niwroddatblygiadol.

Mae'r fframwaith wedi'i rannu fel a ganlyn:

1. Rhagair y Gweinidog
2. Cynulleidfa bwriedig
3. Cefndir
4. Cyflwyniad
5. Cam cwmpasu
6. Cynllun gweithredu a’r broses weithredu
7. Gwerthuso a chydgynhyrchu
8. Llywodraethu ac atebolrwydd

Atodiad 1: Y fframwaith strategol a deddfwriaethol

Atodiad 2: Meini prawf llesiant meddwl drafft ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o arferion da.